

OWEN (TEULU), Plas Du, Sir Gaernarfon

Daeth y cyfenw Owen yn sefydlog yn yr hen linach hon yn Sir Gaernarfon (yn disgyn o Collwyn ap Tangno) yn adeg plant OWEN AP GRUFFYDD a'i wraig Margaret, merch Foulk Salusbury, Llanrwst (a gwraig Gruffydd Madryn yn ddiweddarach); yr oedd amryw o aelodau'r teulu â chysylltiad â'r adfywiad Pabyddol a ddilynodd esgymuno Elisabeth yn 1570.

Yr oedd THOMAS OWEN, y mab hynaf, yn siryf Sir Gaernarfon, 1568-9, eithr dechreuodd (c. 1573) ei absenoli ei hun o wasanaethau Eglwys Loegr; yn 1576 credid ei fod yn paratoi i drosglwyddo'r stad i'w frawd iau Foulk ac ymuno â'i frodyr eraill (isod) dros y môr. Yn dilyn y drwgdybio hwn daeth cyfres o ymchwiliadau swyddogol ac achosion cyfreithiol (1578 ymlaen) pryd y cyhuddwyd ef o fod yn Babydd, o roddi lloches i offeiriaid Pabaidd, o ohebiaeth anghyfreithlon a theyrnfradwrol â'i frawd Hugh yn Brussels, ac o gamddefnyddio degymau Aberdaron er lles y brawd hwnnw. Wedi iddo fod yng ngharchar am dymor ymddengys i Thomas gydymffurfio; y mae'n debyg ei fod wedi marw erbyn 1595 gan adael y stad i'w fab hŷn, OWEN THOMAS OWEN (a fu farw cyn 1618); eithr gwrthwyd hwnnw allan o'r stad (c. 1614) gan fod yr echwynwyr yn pwysu, e.e. **Syr Thomas Myddelton** (1550 - 1631) a **Syr William Maurice**. Trydydd mab Thomas Owen oedd **John Owen**, yr epigramydd.

Mab iau i Owen ap Gruffydd oedd HUGH OWEN (1538 - 1618), cynllwynwr Pabyddol. Cafodd ei addysg yn Lincoln's Inn (21 Ebrill 1556), a bu yng ngwasanaeth teuluol Henry Fitzalan, 12fed iarl Arundel ac arglwydd Croesoswallt, a bu gyda'i feistr, ac yng nghwmni **Humphrey Llwyd**, yn y 'Diet' yn Augsburg (1566); dylanwadwyd arno gan yr iarl i gymryd rhan mewn cynllwynion ar ran Mari frenhines Sgotland. Oherwydd fod iddo ran yn y 'Ridolfi Plot' (1571), bu raid iddo fynd i ymguddio - ar y cyntaf gyda **Llwydiaid** Llwyn y Maen a Phabyddion eraill o gwmpas Croesoswallt, yna trwy Sbaen i Brussels (1572), lle y bu'n derbyn pensiwn gan Sbaen ac yn gynghorydd ar faterion ynglŷn â Lloegr i lywodraeth yr Iseldiroedd am tua 40 mlynedd, gan ymweled yn aml â'r Eidal, Sbaen, a Ffrainc, gan gynnal cynrychiolwr dirgel ar ôl y llall yn gyson yn Lloegr, a chan ddefnyddio Cymry mewn byddinoedd Seisnig yn Fflandrys i hwyluso cynlluniau milwrol Sbaen yno. Achwynid arno fel cychwynnydd amryw o'r cynllwynion yn erbyn Elisabeth; y mae'n sicr fod iddo ryw ran ym Mrad y Powdr Gwn. Er nad ydoedd ef ei hunan (fel y dywedir weithiau) yn aelod o Gymdeithas Iesu, yr oedd o 1587 ymlaen yn bleidydd di-ildio i bolisi aelodau'r gymdeithas honno ac i'r sawl o'r Pabyddion a oedd yn caru Sbaen - o'i gymharu â chyd-alltudion megis **Thomas Morgan** (1543 - 1605) neu **Owen Lewis**, esgob Cassano, a oedd yn ffafrio cael teyrn o Sgotland i esgyn ar orsedd Lloegr. Gwnaeth Llywodraeth Lloegr geisiadau o 1574 ymlaen am iddo gael ei anfon allan o'r wlad, eithr gwrthodwyd hwy dro ar ôl tro hyd 1610-11, pryd yr ymneilltuodd Owen i'r Coleg Seisnig yn Rhufain, lle y bu farw ar 30 Mai 1618. Cadwai ei gysylltiad â mudladau yng Nghymru a defnyddiai Gymraeg yn aml yn ei ohebiaeth ddirgel. Bu farw'n ddirbriod. Di-etifeddodd ei nai **John Owen** yr epigramydd, a oedd yn Brotestant, yn ffafri ei nai **Charles Gwynne** (gweler dan **Bodvel**), a oedd yn Babydd; y nai hwn a fu'n gyfrifol am y gofeb i'w ewythr a osodwyd ar fur yn y Coleg Seisnig yn Rhufain (*Archæologia Cambrensis*, l, viii, 130-1).

Trydydd mab Owen ap Gruffydd ydoedd ROBERT OWEN (fl. 1570), canon Mantes. Y mae'n debyg iddo yntau hefyd gael ei ddwyn i fynd yn nheulu iarl Arundel. Rhoes Arundel iddo fywoliaeth West Felton, Swydd Amwythig, yn 1560, eithr fe'i collodd hi neu fe ymddiswyddodd yn 1570 a chael trwydded i fynd dros y môr i astudio. Bu'n astudio'r gyfraith yn Douay (1570-3); aeth ymlaen i Rufain, ac ar ôl bod adref unwaith o leiaf fe ymfedyddodd yn Ffrainc gyda phapurau yn profi bod 'nuncio' y Pab yn ei gymerau (1576). Bu'n byw ym Mharis mewn cyswllt agos â'r Pabyddion alltudiedig o Brydain a oedd ym Mharis a lleoedd eraill ac yn gohebu'n gyson (yn Gymraeg a Saesneg) gyda'i frawd Hugh. Yn gynnar yn y ganrif nesaf daeth yn ganon Mantes (neu, efallai, Le Mans). Ym mis Rhagfyr 1602 cafodd ei anfon gan Lywodraeth Ffrainc, yn anwyddogol, i Brussels i ystyried (gyda'i frawd Hugh a'r rhai a oedd yn hoffi Sbaen) hawliau Iago VI, frenin Sgotland, ar Goron Lloegr. Pan glywyd amdano ddiwethaf oll (7 Chwefror 1604) yr oedd yn achwyn yn arw yn erbyn canlyniadau esgyniad Iago VI i'r orsedd. Bu brawd a oedd yn iau nag ef, sef JOHN OWEN, yn astudio yn Douay hefyd.

Awdur

Yr Athro Emeritus **Arthur Herbert Dodd**, (1891 - 1975)

Ffynonellau

Bulletin of the Board of Celtic Studies, viii, 344-58, ix, 154-67, 247

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymrodorion, 1901-2, 128-44; 1936, 97-123; 1937, 119, 129-44, 207-23

The English historical review, liii, 629-50

Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon, i, 47-54

y ffynonellau a enwir yn y rhain a hefyd *Reports of the Historical Manuscripts Commission*, Cecil, xvii

Catholic Record Society, xxxix, 246-9, 251; 272-5 313-4

J. H. Hessels, *Ecclesiae Londino-Batavae Archivum* â€¦ 1. *Abrahami Ortelii, geographi Antverpiensis et virore eruditorum ad cundem et ad Jacobum Colium Ortelianum, Abrahami Ortelii sororis filium, epistulae. Cum aliquot aliis epistulis et tractatibus quibusdam ab utroque collectis, 1524-1628* (Llundain 1887), 1887, 63, 71-2, 77

The Records of the Honorable Society of Lincoln's Inn. Admissions, 1420â€“1893, etc., 1896; Black Books, 1422â€“1845 (1897â€“1902), 1896, i 62

Clenennau Letters and Papers in the Brogyntyn Collection (Aberystwyth 1947), xix, a'r llythyrau 75, 273, 286 293, 441-2, 453

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Erwch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

Preifatrwydd a Chwciis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiwedd
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government